# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 4YDD MAWRTH, 2024**

**I DDILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 23 Chwefror 2024)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Alan Jones Evans | Annwen Hughes |
| Gareth Tudor Jones | Linda Ann Jones |
| Edgar Wyn Owen | Gwynfor Owen |
| Arwyn Herald Roberts | Huw Rowlands |
| Elfed Williams | Sedd Wag |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gareth Williams | Angela Russell |
| Eryl Jones-Williams | Anwen J. Davies |
| John Brynmor Hughes | |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 4ydd o Ragfyr 2024 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 5 - 11

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 19 Rhagfyr 2023

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**
**Rhagfyr 4ydd 2023**

**Presenoldeb:** Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd)

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, Alan Jones Evans, Annwen Hughes, Linda Ann Jones, Gareth Tudor Jones, Eryl Jones-Williams, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Angela Russell, a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nia Grisdale (Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Gwynfor Owen ac Arwyn Herald Roberts

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 25ain o Fedi 2023 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 30ain o Awst 2023 a 26ain o Hydref 2023 fel rhai cywir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 10:35

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 19-12-23**

**Yn bresennol**:

**Cynghorwyr:** Y Cynghorydd Anwen Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Gwynfor Owen a Gareth Williams

**Swyddogion:** Sïon Huws (Uwch Gyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

1. **YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

4. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

5. **CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y collfarnau a'i amgylchiadau personol. Nododd fod y collfaranu yn rai hanesyddol – mewn cyfnod pan oedd yn ifanc a ffôl. Amlygodd bod ganddo brofiad o weithio fel gyrrwr tacsi a'i fod wedi cael cynnig gwaith gyda chwmni lleol. Ategodd ei fod wedi gweithio gyda chwmni Cross Rail am flynyddoedd lle roedd gwiriadau manwl yn cael eu gwneud i sicrhau ei addasrwydd i'r swydd.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â pham nad oedd wedi cydnabod y collfarnau ar ei ffurflen gais, nododd bod y gollfarn olaf wedi digwydd yn 1987 (36 mlynedd yn ôl) ac ystyriodd felly y byddai'r rhain bellach wedi dod i ben. Ymddiheurodd nad oedd yn ymwybodol bod collfarnau hanesyddol yn parhau i gael eu hystyried wrth wneud cais am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:
- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Datganiad DBS
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn mis Ionawr 1970, derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am Ymosodiad Cyffredin Ditiadwy yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 A.42 + A.47 a byrgleriaeth a lladrata o annedd yn groes i Ddeddf Dwyn 1968.9 (1)(B). Cafodd ddedfryd yn Llys Ieuenctid Caernarfon ac fe'i hanfonwyd i Ganolfan Gadw am dri mis.

Yn mis Ebrill 1982 derbyniodd gollfarn am drin eiddo wedi'i ddwyn, yn groes i Ddeddf Dwyn 1968 A.22 ac achosi gwir niwed corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861. Cafodd ddedfryd yn Llys Ynadon Gwyrfai a derbyniodd ddedfryd ohiriedig o 2 flynedd.

Ym mis Mai 1983 derbyniodd gollfarn am gyflawni Ymosodiad gan achosi gwir niwed corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 A.47. Derbyniodd ddirwy gyda chostau am y drosedd hon.

Yn mis Ebrill 1984 cafodd gollfarn a'i ddedfrydu i garchar ar 7 o achosion gan gynnwys -
- Byrgleriaeth a Lladrata o annedd yn groes i Ddeddf Dwyn 1968 S.9 (1)(B)
- Byrgleriaeth a Lladrata o annedd Deddf Dwyn 1968 A.9 (1)(B)
- Trin nwyddau wedi'u dwyn - Ddeddf Dwyn 1968 A.22
- Torri Dedfryd Ohiriedig - Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol 1973 A.23.
- Lladrata - Deddf Dwyn 1968 A.1
- Trin nwyddau wedi'u dwyn - Ddeddf Dwyn 1968 A.22

Yn mis Mawrth 1985 derbyniodd gollfarn am wyrdroi cwrs cyfiawnder yn groes i gyfraith gyffredin a derbyniodd ddedfryd carchar 15 mis.

Yn mis Mehefin 1987 derbyniodd gollfarn am gyflawni Ymosodiad gan achosi gwir niwed corfforol (ABH) yn groes i Ddeddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 A.47, a derbyniodd ryddhad amodol gyda chostau.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae paragraff 6.2 yn nodi, bod unrhyw un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fodd bynnag, o ystyried ystod y troseddau sy'n ymwneud â thrais, rhaid rhoi ystyriaeth i natur y drosedd.

Mae paragraff 6.6 o'r Polisi yn nodi y bydd cais, fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd a hynny o fewn y 10 mlynedd ddiwethaf.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, lladrata.

Mae paragraff 16.1 o'r Polisi yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad yr ymgeisydd o'i amgylchiadau ac argymhelliad y swyddog Trwyddedu i ganiatáu'r cais.

O dan bolisi'r awdurdod ystyriwyd bod digon o amser wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiwethaf i ystyried caniatáu'r drwydded. Noder y Polisi bod gofyn am o leiaf 10 mlynedd fynd heibio wrth ystyried collfarnau megis trais, anonestrwydd ac ail droseddu mewn achosion sydd yn ymwneud â diffyg parch at les eraill neu o ran eiddo. Er bod hanes helaeth o droseddu yma, roedd 36 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn ddiwethaf. Ystyriodd yr Is-bwyllgor y dystiolaeth a roddwyd yn y gwrandawiad, y ffaith nad oedd gan yr ymgeisydd unrhyw hanes pellach o droseddu nac unrhyw dystiolaeth o broblemau perthnasol eraill. Nid oedd sail felly i wrthod y cais.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## 6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r collfarnau perthnasol.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor gymeradwyo'r cais. Ategwyd mai cais i adnewyddu trwydded gyrrwr Hacni / Hurio preifat oedd wedi ei gyflwyno a bod yr ymgeisydd wedi datgan y pwyntiau goryrru ar ei gais.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y pwyntiau cosb a dderbyniodd yr ymgeisydd am oryrru. Nododd fod yr ymgeisydd yn y swyddfa, ond ei fod yn sâl gyda covid. Petai angen i'r aelodau glywed gan yr ymgeisydd byddai modd trefnu ystafell arall ar ei gyfer. Adroddwyd ei fod yn derbyn bod y ddau achos yn agos at ei gilydd a bod yr ymgeisydd yn ymddiheuro am hynny. Nododd bod yr ymgeisydd yn yrrwr profiadol a bod peidio â gweithio dros y 6 wythnos ddiwethaf wedi teimlo fel cosb - wedi colli cyflog ag yntau'n brif enillydd y teulu.

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd yr ymgeisydd wedi datgan ei bwyntiau cosb yn mis Mai a Mehefin, a bod hynny yn amod ar drwydded unrhyw yrrwr cerbyd hacni / hurio preifat, derbyniwyd y dylai'r manylion fod wedi eu rhannu gyda'r Uned Drwyddedu, ond bod yr ymgeisydd hefyd wedi meddwl y byddai'n cael cais i fynychu cwrs ymwybyddiaeth cyflymder.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Adroddiad yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar cynrychiolydd yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

Yn Mai 2021, derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb (SP30) am dorri'r cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus - y pwyntiau hyn yn dod i ben Mai 2024.

Yn Mehefin 2021, derbyniodd yr ymgeisydd 3 pwynt cosb (SP30) am dorri'r cyfyngiad cyflymder statudol ar ffordd gyhoeddus - y pwyntiau hyn yn dod i ben Mehefin 2024

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.4 yn nodi pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y Cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae rhan 13 o'r Polisi yn ymwneud a mân droseddau traffig ac yn cyfeirio yn bennaf at droseddau sydd heb eu rhestru ym mharagraff 12.2 o'r Polisi

Mae paragraff 13.3 o'r Polisi yn nodi y "Gallai mwy nag un gollfarn am fân drosedd traffig neu fater arall i'w ystyried arwain at wrthod cais, yn enwedig os oes sawl collfarn neu faterion eraill i'w hystyried ar gyfer yr un drosedd, e.e. goryrru. Mae'n bosibl y caiff gyrrwr trwyddedig ei gyfeirio at sylw'r Pwyllgor Trwyddedu os oes mwy na dwy drosedd ac/neu gyfanswm o 6 phwynt ar ei drwydded"

**CASGLIADAU**

Ystyriwyd darpariaethau'r Polisi, esboniad cynrychiolydd a darpar gyflogwr yr ymgeisydd o'r amgylchiadau ac argymhelliad y Rheolwr Trwyddedu i ganiatáu'r cais. Roedd 2½ blynedd bellach wedi mynd heibio heb ail droseddu ac roedd yr ymgeisydd wedi cydnabod ei fai ac mai camgymeriad oedd peidio rhoi gwybod i'r Uned Trwyddedu yn gynt am ei bwyntiau cosb.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor o blaid caniatáu y cais a bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

**7. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr C**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â Pholisi Trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr C am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r wybodaeth berthnasol.

Roedd yr Awdurdod Trwyddedu yn argymell i'r Is-bwyllgor roi sylw i Bolisi'r Cyngor a Chanllawiau'r Sefydliad Trwyddedu ar ddiogelwch ac addasrwydd yr unigolyn cyn gwneud penderfyniad i gymeradwyo trwydded ai peidio.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais gan roi gwybodaeth am gefndir y digwyddiadau. Amlygodd ei rwystredigaeth wrth wneud cais drwy gamddehongli gwybodaeth oedd wedi ei dderbyn ynghyd a methu deall y broses cofrestru, ac o orfod talu ffioedd a chostau DBS ymlaen llaw. Ategodd bod yr ymddygiad allan o gymeriad ac ar y pryd roedd yn mynd drwy gyfnod anodd yn ei fywyd - os na allai gael gwaith byddai'n ddigartref. Nododd ei fod wedi dysgu o'r broses a'i fod wedi cael cynnig gwaith, os byddai'r drwydded yn cael ei chymeradwyo. Ei ddymuniad, i'r dyfodol oedd darparu cludiant i'r anabl.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- Adroddiad yr Adran Drwyddedu
- Ffurflen gais yr ymgeisydd
- Sylwadau llafar yr ymgeisydd

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r materion canlynol

**Cefndir**

- Yn Awst 2023 ymwelodd yr ymgeisydd â swyddfeydd y Cyngor gan siarad ag aelod o staff mewn modd amhriodol ac ymosodol. Roedd ei ymddygiad wedi arwain at aelod profiadol o staff derbynfa'r swyddfeydd i wneud achos i adrodd am y mater yn ffurfiol ar ffurflen HS11 i'w rheolwr llinell ac i'r Adran Adnoddau Dynol. Cafodd fersiwn dienw o'r ffurflen ei rannu gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Trwyddedu; gan ei fod yn ymwneud â chais gyrrwr tacsi.
- Ychydig ddyddiau ar ôl y digwyddiad, dychwelodd yr ymgeisydd i swyddfeydd y Cyngor, a daeth dau swyddog trwyddedu i'w gyfarfod gyda achos i'w gynghori mai fel ymgeisydd ar gyfer trwydded gyrrwr tacsi, bod ei ymddygiad yn fater perthnasol, ac nad oedd ymddygiad gwael tuag at swyddogion y Cyngor yn dderbyniol. Nododd yr ymgeisydd yn ei ymateb ei fod yn teimlo'n rhwystredig nad oedd y broses ymgeisio yn syml a'i fod eisiau dechrau ennill bywoliaeth. Ymatebodd y swyddog bod nifer o wiriadau'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod unigolyn yn 'berson addas a phriodol'.
- Yn Hydref 2023, ffoniodd yr ymgeisydd y swyddog trwyddedu o swyddfeydd Siop Gwynedd, a oedd yn ei gynorthwyo gyda'r cais. Unwaith eto, roedd ymddygiad yr ymgeisydd yn annerbyniol; rhegodd ar y swyddog dros y ffôn a cholli ei dymer. Bu rhaid i staff Siop Gwynedd ymyrryd a chynnal y sgwrs ar y ffôn gan fod yr ymgeisydd wedi colli ei dymer.

**CYMALAU PERTHNASOL Y POLISI**

- Yn ogystal ag ystyried unrhyw gymalau perthnasol ym Mholisi Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr y Cyngor, mae'n ddisgwyliedig i'r is-bwyllgor ystyried Canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu (IOL) ar benderfynu addasrwydd ymgeiswyr a thrwyddedai'r diwydiant hacni a hurio preifat. Nod Trwyddedu Awdurdodau Lleol ar dacsis a cherbydau hurio preifat ydy diogelu'r cyhoedd, gyda

hyn mewn cof, rhaid i Ddiogelu'r Cyhoedd fod ar flaen meddwl y sawl sy'n penderfynu os yw'r unigolyn yn 'berson addas a phriodol' i gael trwydded ai peidio.

- Mae paragraff 3.26 Canllawiau'r Sefydliad Trwyddedu yn nodi "bod angen i gymeriad y gyrrwr yn ei gyfanrwydd fod o ystyriaeth bennaf wrth ystyried a ddylent gael trwydded".

- Mae paragraff 3.32 yn ymhelaethu bod "disgwyl i drwyddedai arddangos ymddygiad proffesiynol priodol bob amser; boed yng nghyd-destun eu gwaith neu fel arall. Dylai trwyddedai fod yn gwrtais, osgoi gwrthdaro, a pheidio â bod yn dreisgar" ac "mae disgwyl i drwyddedai ymddwyn gyda gonestrwydd ac arddangos ymddygiad sy'n gweddu i'r ymddiriedaeth a roddir iddynt."

- Mae paragraff 4.10 y Canllawiau yn nodi "Wrth benderfynu ar ddiogelwch ac addasrwydd, mae gan yr Awdurdod Trwyddedu hawl i ystyried yr holl faterion sy'n ymwneud â'r ymgeisydd neu drwyddedai. Nid ydynt yn syml yn bryderus gydag ymddygiad y person wrth weithio yn y diwydiant cerbydau hacni a hurio preifat. Mae'r ystyriaeth hon yn llawer ehangach na chollfarnau troseddol yn unig neu dystiolaeth arall o ymddygiad annerbyniol, a bydd cymeriad yr unigolyn yn ei gyfanrwydd cael ei ystyried. Gall hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ymddygiad a natur yr unigolyn."

**CASGLIADAU**

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod ymddygiad yr ymgeisydd tuag at swyddogion y Cyngor yn hollol annerbyniol. Wrth dderbyn ei fod yn teimlo'n rhwystredig gyda'r broses, nid oedd hynny'n esgus dros ymddwyn yn y fath fodd ac er yn cydnabod ei amgylchiadau personol a'r pwysau oedd arno i ennill bywoliaeth, nid oedd hynny yn cyfiawnhau ymddygiad o'r fath. Er hynny, roedd yr Is-bwyllgor yn croesawu'r ffaith fod yr ymgeisydd yn cydnabod nad oedd ei ymddygiad i fyny i'r safonau a ddisgwylid.

Yn absenoldeb unrhyw gollfarnau ac unrhyw ddarpariaethau penodol manwl ym mholisi'r awdurdod ystyriodd yr Is-bwyllgor y cais yng nghyd-destun pwrpas sylfaenol y gyfundrefn drwyddedu sef diogelu'r cyhoedd. Ystyriwyd yn benodol y prawf, a fyddai'r aelodau yn fodlon i ganiatáu i aelod agos o'u teulu, megis e.e, mab neu ferch neu bartner, deithio mewn  cerbyd, ar ben eu hunain, gyda'r ymgeisydd. Wedi cyfarfod yr ymgeisydd yn y gwrandawiad a chlywed beth oedd ganddo i ddweud, daeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad ei fod yn bodloni'r prawf hwnnw.

Wedi pwyso a mesur yr holl ffactorau yn ofalus, daethpwyd i benderfyniad bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat. Serch hynny roedd yr Is-bwyllgor yn dymuno atgoffa'r ymgeisydd y gall yr Awdurdod Trwyddedu Lleol atal neu ddiddymu trwydded os bydd unrhyw ymddygiad annerbyniol yn dod i'w sylw

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd

Dechreuodd y cyfarfod am 2 :05pm a daeth i ben 4 :10pm